# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 23 Medi 2019** |
| Amser: | **12.30 - 14.30** |

## Cofnodion: AC(5)2019(6)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Siân Gwenllian AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Carys Evans, Pennaeth Cyswllt a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau**<br>**Kathryn Potter, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil**<br>**Kevin Davies, Pennaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.
Croesawyd Arwyn Jones, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, i'w gyfarfod cyntaf.

1.2 Datgan buddiannau

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf.

## 2 Cyllideb Ddrafft y Comisiwn 20-21

Trafododd y Comisiynwyr eu cyllideb ddrafft arfaethedig ar gyfer 2020-21 ymhellach wrth baratoi ar gyfer ei gosod ar 1 Hydref fan bellaf.

Gwnaethant drafod newidiadau yn y gyllideb weithredol a chyffredinol ynghyd â blaenoriaethau arian prosiect. Gwnaethant nodi hefyd y diwygiadau sy'n ofynnol i gyfrif am y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 newydd – Prydlesi a llythyr a anfonwyd gan y Gweinidog Cyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Trafododd y Comisiynwyr Gyllideb Ddrafft 2020-21, a’i chymeradwyo, yn amodol ar rai mân addasiadau i’r naratif.

## 3 Gosod Ffenestri Newydd yn Nhŷ Hywel

Trafododd y Comisiynwyr gynigion ar gyfer gosod ffenestri newydd yn Nhŷ Hywel, sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes weithredol, ac rydym yn gweld nifer gynyddol o ddiffygion nad oes modd o’u trwsio.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb, ac y dylid adrodd ar y canlyniad maes o law.

## 4 Diweddariad ar Ddiwygio’r Cynulliad

**4A - Diweddariad ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) - Y Comisiwn Etholiadol**

Cafodd y Comisiynwyr ddiweddariad ar gynigion sy’n ymwneud â’r gwelliannau arfaethedig mewn perthynas ag ariannu’r Comisiwn Etholiadol a’i atebolrwydd yn y Bil a diweddariad i’r amserlen ddeddfwriaethol.

Gwnaethant drafod model arfaethedig y Cwnsler Cyffredinol ar gyfer ariannu'r Comisiwn Etholiadol a goblygiadau dulliau gweithredu gwahanol fel y nodwyd yn ei ohebiaeth â'r Pwyllgor Cyllid. Gwnaethant nodi hefyd y byddai angen cydsyniad Gweinidog y Goron yn Llywodraeth y DU ar y gwelliannau arfaethedig ac y byddai angen ei gael ymhell o fewn yr amserlenni arferol er mwyn osgoi unrhyw oedi cyn cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil.

Cytunodd y Comisiynwyr mai eu ffafriaeth o hyd yw gweld y Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y Llywydd yn trafod y mater ymhellach â'r Comisiynwyr i gytuno ar eu hymateb yn ystod Cyfnod 2 ar ôl cael barn y Pwyllgor Cyllid a rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

**4A - Diweddariad ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) - materion nad ydynt yn gysylltiedig â'r Comisiwn Etholiadol**

Roedd y Comisiwn wedi gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r posibilrwydd o anghymhwyso staff y Comisiwn rhag sefyll etholiad i'r Cynulliad, a chyhoeddi gwariant etholiadau'r Cynulliad.

Trafododd y Comisiynwyr sut y dylai'r Llywydd ymdrin â'r materion hyn yn ystod gwaith craffu Cyfnod 2 ar y Bil a hefyd sut i ymateb i ddiwygiadau eraill y gellid eu gosod.

Nododd y Comisiynwyr y cynnydd ynghylch cynigion i godi ymwybyddiaeth mewn perthynas â chyflwyno pleidleisiau yn 16 oed ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a chroesawyd y newyddion y byddent yn cael rhagor o wybodaeth yn eu cyfarfod nesaf.

## 5 Mynd â busnes y Cynulliad o Gaerdydd

Nododd y Comisiynwyr gynigion ar gyfer mynd â busnes y Cynulliad i leoliad y tu allan i Gaerdydd a chytunwyd y byddai'r Llywydd yn ysgrifennu at Gadeiryddion grwpiau ac arweinwyr pleidiau'n amlinellu'r achos ac yn ceisio eu barn am lefel y diddordeb yn y math hwn o waith ymgysylltu.

## 6 Costau sy'n gysylltiedig â Swyddfeydd Aelodau a ariennir yn ganolog gan y Comisiwn

Ar ôl cytuno yn 2018 i geisio sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â chostau yr eir iddynt gan Aelodau am redeg eu swyddfeydd, ar wahân i'r rheini y mae'r Penderfyniad yn darparu ar eu cyfer, trafododd y Comisiynwyr ddata yn ymwneud â gwariant dros gyfnod o 12 mis.

Cytunodd y comisiynwyr i siarad â'u grwpiau ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r ffordd y caiff y costau hyn eu rheoli, gyda'r bwriad o gytuno ar yr argymhellion er mwyn hwyluso'r gwelliant hwn.

## 7 Diweddariad ar Brexit

Nododd y Comisiynwyr wybodaeth a roddwyd am baratoadau ar gyfer senarios amrywiol yn ymwneud â Brexit ar ochr busnes ac ochr gwasanaethau corfforaethol y Comisiwn.

## 8 Ugain mlwyddiant – Gŵyl GWLAD

Trafododd a nododd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am raglen Gŵyl GWLAD.

## 9 Papurau i'w nodi:

9.1 Diweddariad y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Cafodd y Comisiynwyr y diweddariad arferol ar benderfyniadau RAD diweddar.

9.2 Cofnodion cyfarfod ACARAC a gynhaliwyd fis Gorffennaf (drafft)

Nododd y Comisiynwyr gofnodion cyfarfod ACARAC a gyflwynwyd yn ôl yr arfer.

## 10 **Unrhyw fater arall**

Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr am hysbysiad cynllunio a ddaeth i law yn ymwneud â datblygu llinell sip arfaethedig dros dro ym Mae Caerdydd.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod blaenorol, roedd y Comisiynwyr wedi cytuno ar yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.